Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ffurflen Hawlio Grant

## Canllaw Sut i Lenwi

# Cynnwys


Ffurflen Hawlio Grant – Canllaw Sut i Lenwi ....................4
Cyfrif RPW Ar-lein ....................5
Gweld y Ffurflen Hawlio Grant ....................6
Tudalen Cyflwyniad ....................8
Dewiswch Gontractau ....................9
Gweithgareddau sydd ar gael ichi hawlio arnyn nhw ....................10
Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Cais ....................11
Cynllun Seilwaith Arfordirol Graddfa Fach ....................11
Anfonebau Cyflenwyr a Thystiolaeth o Daliadau ....................11
Anfonebau Cyflenwyr ....................11
Tystiolaeth o Daliad ....................11
Amodau Contract – angen gwybodaeth ychwanegol ....................12
Dyfynbrisiau ....................12
Ceisiadau am grant a gyflwynir heb y dyfynbrisiau gofynnol ....................12
A fydd angen i mi gyflwyno dyfynbrisiau o hyd? ....................12
Gwrthdaro Buddiannau ....................12
Tyfu er mwyn yr Amgylchedd ....................12
Cyfnod 1 ....................12
Tystiolaeth o brawf pridd ....................12
Copi o’r holl anfonebau hadau ....................13
Copi o’r holl “docynnau” hadau ....................13
Copi o’r holl anfonebau contractio (os defnyddiwyd contractwyr). ....................13
Ffotograffau â geo-tag ....................13
Copi o’r cofnod o weithgareddau yn y cae ....................13
Cyfnod 2 ....................13
Tystiolaeth o brawf pridd ....................13
Tystiolaeth o weithgareddau i unioni unrhyw ddiffygion yn y pridd, os yn berthnasol. ....................14
Copi o’r holl anfonebau hadau ....................14
Copi o’r holl “docynnau” hadau ....................14
Copi o’r holl anfonebau contractio (os defnyddiwyd contractwyr). ....................14
Ffotograffau â geo-tag – Cyfnod 2 ....................14
Copi o’r cofnod o weithgareddau yn y cae ....................15
Cyflwyno’r Hawliad ....................16
Gwallau a Gwybodaeth ....................16
Datganiadau ac Ymrwymiadau ....................18
Anfon ....................19
Manylion Cysylltu ....................20

Ymholiadau gan Ffermwyr – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ....................................................20

# Ffurflen Hawlio Grant – Canllaw Sut i Lenwi

## Neges Bwysig

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i lenwi Ffurflen Hawlio Grant a’r dystiolaeth ddogfennol sy’n ofynnol i gefnogi eich cais.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i’ch cyfrif ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Ar agor o 8.30am tan 5.00pm Llun - Iau ac o 8.30am tan 4.30pm bob dydd Gwener).

# Cyfrif RPW Ar-lein

I weld y Ffurflen Hawlio Grant, rhaid ichi fynd trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein. Ar ôl ichi logio i mewn, fe welwch dudalen ‘Hafan’ eich cyfrif RPW ar-lein.



# Gweld y Ffurflen Hawlio Grant

I weld y Ffurflen Hawlio Grant, cliciwch ar y ddolen ar gornel chwith isaf eich sgrin Hafan (gweler isod). Neu cliciwch ar y tab ‘Ffurflenni’ ar y bar dewis a chliciwch ar y ddolen Ffurflen Hawlio Grant yn y panel glas ar ochr dde’r sgrin.



Ar ôl pwyso’r botwm i ddechrau llenwi’ch Ffurflen Hawlio Grant, fe welwch y dudalen ganlynol. Gofalwch fod y manylion arni’n gywir ac os nad ydyn nhw, cywirwch nhw ar eich cyfrif RPW Ar-lein cyn mynd ymhellach. Os ydych yn barod i fynd yn eich blaen, cliciwch ar y botwm ‘Dechrau’.




Ar ôl clicio’r botwm Dechrau, fe welwch y dudalen Cyflwyniad i’r Ffurflen Hawlio Grant.

# Tudalen Cyflwyniad

Mae'r dudalen hon yn rhoi negeseuon pwysig ichi am y Ffurflen Hawlio Grant. Gofalwch eich bod wedi'u darllen yn drylwyr cyn ichi ddechrau. Gallwch weld y Canllaw Sut i Lenwi Ffurflen Hawlio Grant ar wefan Llywodraeth Cymru (bydd hyn yn agor tab newydd ar eich Porwr Rhyngrwyd) drwy glicio ar y ddolen 'Sut i Lenwi'.



# Dewiswch Gontractau

Dim ond os oes gennych fwy nag un contract y gallwch hawlio drwyddynt y byddwch yn gweld y dudalen hon. Gallan nhw fod yn gontractau ar wahân ar gyfer yr un cynllun neu gontractau ar gyfer cynlluniau gwahanol. Dewiswch pa gontract(au) yr hoffech hawlio drwyddynt drwy glicio ar y blwch perthnasol.

Er enghraifft, mae dau gontract ar y Ffurflen Hawlio Grant isod y gallwch hawlio drwyddynt:




Wedi ichi ddewis contract i'w hawlio, bydd y cynllun i'w weld ar ochr chwith y dudalen. Os byddwch wedi dewis mwy nag un contract, bydd pob cynllun y byddwch wedi'i ddewis yn ymddangos yma.



# Gweithgareddau sydd ar gael ichi hawlio arnyn nhw

Mae'r sgrin hon yn dangos y gweithgareddau sydd ar gael ichi Hawlio Grant arnyn nhw ar hyn o bryd.

Bydd y sgrin yn dangos y contract rydych yn hawlio taliad trwyddo.

Ar dop y dudalen, mae yna flwch Help glas sy'n esbonio beth i'w wneud i hawlio'ch taliad.

Ar gyfer rhai Ffurflenni Hawlio Grant, bydd blwch glas arall yn ymddangos o dan y blwch Help fydd yn rhoi rhagor o fanylion y cynllun penodol rydych wedi dewis hawlio'i daliad.



Ffurflen Hawlio Grant

Canllaw Helpu

- Cyflwyniad
- Dewiswch Gontractau ✔
- Y Grant Buddsoddi Coetir (TI00000)
  - 2021
- Cyflwyno

English

Gweithgareddau sydd ar gael ichi hawlio arnyn nhw

‹ Yn ôl | Nesaf ›

| Cyfeirnod y Contract / Cyfeirnod Mynegi Diddordeb | Math o Gontract | Cyfnod y Contract |
|---|---|---|
| TI00000 | Y Grant Buddsoddi Coetir | 2021 |

Help

Cuddio Help

1. Ticiwch y golofn 'Hawlio'r Gweithgaredd hwn' ar gyfer pob gweithgaredd unigol rydych am hawlio arno ar hyn o bryd.
2. Ar gyfer pob gweithgaredd, caiff y 'Nifer Cymeradwy' ei gopïo i'r 'Nifer a Hawlir'. Gallwch deipio nifer llai yn y 'Nifer a Hawlir' ond ni chewch hawlio mwy na'r nifer hwnnw.
3. Rhaid nodi dyddiad cwblhau ar gyfer pob gweithgaredd yn 'Dyddiad Cwblhau'r Gweithgaredd'.
4. Bydd rhai mathau o weithgareddau'n gofyn rhagor o gwestiynau ichi. Darllenwch y Canllaw Sut i Lenwi am esboniad llawn.

Chwilio am weithgareddau::

e.e. TW001 / TW01 / Prynu tir hyd at 10% o gost y prosiect | Canfod | Canfod y Nesaf

| Cyfeirnod y Map | Rhif y Gwaith Cyfalaf | Disgrifiad | Nifer Cymeradwy | Hawlio'r Gweithgaredd hwn? | Nifer a Hawlir | Dyddiad Cwblhau'r Gweithgaredd? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TW001 | TW01 | Prynu tir hyd at 10% o gost y prosiect | £5,000.00 | ☐ | £ | |
| TW002 | TW02 | Seilwaith | £5,000.00 | ☐ | £ | |

‹ Yn ôl | Safio | Printio | ✖ Gadael | Nesaf ›

Rhaid i'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar y sgrin hon fod yn gywir. Ticiwch y blwch sydd yn ymyl y gweithgaredd yr hoffech hawlio amdano. Nodwch y swm rydych yn ei hawlio, a'r dyddiad y cwblhawyd y gweithgaredd.

Sylwer mai dim ond unwaith y cewch chi hawlio am weithgaredd, h.y. chewch chi ddim hawlio am ran o weithgaredd yn awr, yna cyflwyno hawliad arall yn ddiweddarach am weddill y gwaith.

Dim ond pan fydd yr holl waith o dan y gweithgaredd hwnnw wedi'i gwblhau y cewch chi hawlio am weithgaredd.

Mae'n rhaid ichi hefyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi eich cais fel a ddisgrifir yn yr Adran ganlynol – Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Cais

Os bydd y manylion y byddwch yn eu rhoi yn anghywir, fe welwch neges yn dangos eich bod wedi gwneud camgymeriad ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'ch hawliad tan ichi gywiro'r holl gamgymeriadau.

# Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Cais

## Cynllun Seilwaith Arfordirol Graddfa Fach

Er mwyn bod yn gymwys i gyflwyno hawliad mae'n rhaid i chi fod wedi prynu, gosod a chwblhau'r eitemau buddsoddi cyn i chi hawlio a:

- Cyflwyno anfonebau cyflenwyr a thystiolaeth o dwyllo gyda'r holl eitemau buddsoddi a hawliwyd.

- Wedi bodloni a darparu, unrhyw amodau contract penodol sy'n gofyn am ddogfennau ategol ychwanegol gyda'ch hawliad e.e Dyfynbrisau, caniatâd cynllunio, caniatadau

### Anfonebau Cyflenwyr a Thystiolaeth o Daliadau

I fod yn ddilys, rhaid i'ch cais am daliad gael ei gefnogi gan bob anfoneb cyflenwr **a** thystiolaeth o dalu.

### Anfonebau Cyflenwyr

Rhaid i anfonebau arddangos y gair 'anfoneb' yn glir ar y ddogfen a chynnwys y canlynol:

- rhif adnabod unigryw
- enw, cyfeiriad a gwybodaeth gyswllt eich cwmni
- enw a chyfeiriad y cwmni anfonebu
- disgrifiad **clir** o'r hyn rydych yn codi tâl amdano
- y dyddiad y darparwyd y nwyddau neu'r gwasanaeth (dyddiad cyflenwi)
- dyddiad yr anfoneb
- y swm(symiau) sy'n cael eu codi
- Swm TAW os yw'n berthnasol
- y cyfanswm sy'n ddyledus

### Tystiolaeth o Daliad

Dylai datganiadau banc ddangos tystiolaeth o daliad. Ar gyfer pob anfoneb a gyflwynir, rhaid i chi gyflwyno copi o'r datganiad banc i ddangos tystiolaeth o'r taliad a wnaethoch.

Os nad yw'r trafodyn yn glir ar y datganiad banc, er enghraifft nid yw enw'r cyflenwr wedi'i argraffu ar y datganiad, tynnwch sylw at y trafodyn a pha anfoneb y mae'n cyfeirio ati.

Os nad yw gwerth y trafodiad yn cyfateb i werth yr anfoneb (er enghraifft os ydych wedi prynu eitemau nad ydynt yn eitemau prosiect gan yr un cyflenwr) bydd angen dadansoddiad o'r taliad cyfan gydag anfonebau ategol.

Os byddwch yn gwneud taliadau gyda siec, bydd angen sgan o'r siec ysgrifenedig, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r cyflenwr, **yn ogystal** â'r datganiad banc.

**Amodau Contract – angen gwybodaeth ychwanegol**
Efallai y bydd gan eich contract amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi gyflwyno dogfennau penodol i gefnogi eich prosiect, eitem fuddsoddi a hawliad. Gwiriwch eich contract i sicrhau eich bod wedi bodloni amodau'r contract. Gallai'r rhain fod yn ddogfennau megis dyfyniadau, caniatâd amgylcheddol, caniatâd cynllunio ac ati.

**Dyfynbrisiau**
Wrth gwblhau cais llawn am grant, rhaid i ymgeiswyr ddilyn y gofynion ar gyfer dyfynbrisiau fel y nodir yn y [Rhaglen Datblygu Gwledig / Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop 2014 i 2020: canllaw technegol ar dendro cystadleuol a chaffael cyhoeddus | LLYW. Cymru]

Mae angen tri dyfynbris ar gyfer Eitem Fuddsoddi lle mae'r gost anfonebu yn £5,000 neu fwy ac un dyfynbris os yw'r gost anfonebu yn llai na £5,000.

**Ceisiadau am grant a gyflwynir heb y dyfynbrisiau gofynnol**
Os nad oeddech yn gallu cael yr holl ddyfynbrisiau neu rai dyfynbrisiau ar gyfer eitemau buddsoddi pan wnaethoch gwblhau eich cais, efallai y bydd Llywodraeth Cymru, o dan rai amgylchiadau, wedi caniatáu i gais gael ei gyflwyno heb yr holl ddyfynbrisiau gofynnol. Yna, mae eich costau contract yn seiliedig ar y gwerthoedd a ddatganwyd yn eich cais llawn ar-lein.

**A fydd angen i mi gyflwyno dyfynbrisiau o hyd?**
Bydd, cyn y gellir ystyried hawliad, rhaid i chi gyflwyno dyfynbrisiau ar gyfer eitemau buddsoddi yn eich contract os na wnaethoch eu cyflwyno i'w dilysu gyda'ch cais.

Gwiriwch a yw amodau yn eich contract yn gofyn i chi gyflwyno dyfynbrisiau. **Ni ellir prosesu ceisiadau am daliad nes bod y dyfynbrisiau gofynnol wedi'u derbyn, eu gwirio ac yn foddhaol.**

Cynghorir eich bod yn cyflwyno eich dyfynbrisiau ar gyfer eitem fuddsoddi cyn i chi ddechrau gweithio.

**Gwrthdaro Buddiannau**
Rhaid egluro unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig neu wirioneddol rhyngoch chi a'r cyflenwyr y gofynnir iddynt ddarparu dyfynbrisiau - er enghraifft cael dyfynbrisiau gan gwmnïau cysylltiedig, yn y dogfennau tendro cystadleuol ategol. Lle y gallai fod gwrthdaro, rhaid cymryd camau lliniaru a'u dogfennu.

# Tyfu er mwyn yr Amgylchedd
# Cyfnod 1

**Tystiolaeth o brawf pridd**
Mae'n rhaid cynnal prawf pridd neu ei wneud yn y 12 mis cyn gwneud cais. Y gofyniad sylfaenol ar gyfer y prawf hwn yw dadansoddiad o lefelau P, K a pH. Dylid tystiolaethu'r prawf pridd drwy ddarparu copi o adroddiad canlyniadau dyddiedig sy'n cynnwys enw a chyfeiriad yr ymgeisydd gyda chyfeiriadau cae. Mae angen prawf pridd ar gyfer pob parsel cae unigol lle mae opsiwn Tyfu ar gyfer yr Amgylchedd ar waith.

**Copi o'r holl anfonebau hadau**

Rhaid i'r gair 'anfoneb' (invoice) ymddangos ar y ddogfen a chynnwys y manylion canlynol:

- rhif adnabod unigryw
- eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt
- enw a chyfeiriad y cwmni sy'n anfonebu
- disgrifiad clir o'r hyn a godir tâl arnoch amdano
- y dyddiad cyflenwi (y dyddiad y darparwyd yr hadau)
- dyddiad yr anfoneb
- y swm neu'r symiau a godir
- swm y TAW, os yn berthnasol
- y cyfanswm sy'n ddyledus i'r cyflenwr

**Copi o'r holl "docynnau" hadau**

Rhaid i'r tocynnau hadau gynnwys manylion y cymysgedd o hadau. Mae'r gofynion sylfaenol ar gyfer hadau wedi'u cynnwys yn Atodiad B o'r Rheolau Cyffredinol ar gyfer Tyfu er mwyn yr Amgylchedd - https://www.llyw.cymru/tyfu-er-mwyn-yr-amgylchedd-llyfryn-rheolau

**Copi o'r holl anfonebau contractio (os defnyddiwyd contractwyr).**

Rhaid i'r gair 'anfoneb' (invoice) ymddangos ar y ddogfen a chynnwys y manylion canlynol:

- rhif adnabod unigryw
- eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt
- enw a chyfeiriad y cwmni sy'n anfonebu
- disgrifiad clir o'r hyn a godir tâl arnoch amdano
- y dyddiad cyflenwi (y dyddiad y darparwyd y gwasanaeth)
- dyddiad yr anfoneb
- y swm neu'r symiau a godir
- swm y TAW, os yn berthnasol
- y cyfanswm sy'n ddyledus i'r cyflenwr

**Ffotograffau â geo-tag**

Rhaid darparu ffotograffau â geo-tag o'r cae neu gaeau dros yr ardal gyfan lle y mae'r opsiwn Tyfu er mwyn yr Amgylchedd ar waith ar y camau hyn:

- Cyn trin y tir neu ddrilio uniongyrchol.
- Yn ystod trin y tir a gweithgareddau hau.
- Ar 15 Chwefror 2023 yn dangos gorchudd cnwd llawn.

Mae canllawiau ar ffotograffau â geo-tag ar gael ar y wefan - https://www.llyw.cymru/tyfu-er-mwyn-yr-amgylchedd-canllawiau-ffotograff-geotag

**Copi o'r cofnod o weithgareddau yn y cae**

Rhaid cyflwyno cofnod o'r holl weithgareddau yn y cae, gan gynnwys trin y tir, hau a dyddiadau cynaeafu, cyfraddau hadau, y defnyddio o wrtaith, dyddiad pori a chyfraddau stocio.

# Cyfnod 2

**Tystiolaeth o brawf pridd**

Mae'n rhaid cynnal prawf pridd neu ei wneud yn y 12 mis cyn gwneud cais. Y gofyniad sylfaenol ar gyfer y prawf hwn yw dadansoddiad o lefelau P, K a pH. Dylid tystiolaethu'r

prawf pridd drwy ddarparu copi o adroddiad canlyniadau dyddiedig sy'n cynnwys enw a chyfeiriad yr ymgeisydd gyda chyfeiriadau cae. Mae angen prawf pridd ar gyfer pob parsel cae unigol lle mae’r opsiwn Tyfu ar gyfer yr Amgylchedd ar waith.

**Tystiolaeth o weithgareddau i unioni unrhyw ddiffygion yn y pridd, os yn berthnasol.**
I dystiolaethu'r camau a gymerwyd i unioni unrhyw ddiffygion yn y pridd ar unwaith, gallwch ddarparu anfoneb galch a/neu wrtaith neu gofnod o weithgareddau yn y cae sy'n dangos bod slyri / tail wedi'i ddefnyddio.

**Copi o’r holl anfonebau hadau**
Rhaid i’r gair ‘anfoneb’ (invoice) ymddangos ar y ddogfen a chynnwys y manylion canlynol:

- rhif adnabod unigryw
- eich enw, eich cyfeiriad a’ch manylion cyswllt
- enw a chyfeiriad y cwmni sy’n anfonebu
- disgrifiad clir o’r hyn a godir tâl arnoch amdano
- y dyddiad cyflenwi (y dyddiad y darparwyd yr hadau)
- dyddiad yr anfoneb
- y swm neu’r symiau a godir
- swm y TAW, os yn berthnasol
- y cyfanswm sy’n ddyledus i’r cyflenwr

**Copi o’r holl “docynnau” hadau**
Rhaid i’r tocynnau hadau gynnwys manylion y cymysgedd o hadau. Mae’r gofynion sylfaenol ar gyfer hadau wedi’u cynnwys yn Atodiad B o’r Rheolau Cyffredinol ar gyfer Tyfu er mwyn yr Amgylchedd - https://www.llyw.cymru/tyfu-er-mwyn-yr-amgylchedd-llyfryn-rheolau

**Copi o’r holl anfonebau contractio (os defnyddiwyd contractwyr).**
Rhaid i’r gair ‘anfoneb’ (invoice) ymddangos ar y ddogfen a chynnwys y manylion canlynol:

- rhif adnabod unigryw
- eich enw, eich cyfeiriad a’ch manylion cyswllt
- enw a chyfeiriad y cwmni sy’n anfonebu
- disgrifiad clir o’r hyn a godir tâl arnoch amdano
- y dyddiad cyflenwi (y dyddiad y darparwyd y gwasanaeth)
- dyddiad yr anfoneb
- y swm neu’r symiau a godir
- swm y TAW, os yn berthnasol
- y cyfanswm sy’n ddyledus i’r cyflenwr

**Ffotograffau â geo-tag – Cyfnod 2**
Rhaid darparu ffotograffau â geo-tag o’r cae neu gaeau dros yr ardal gyfan lle y mae’r opsiwn Tyfu er mwyn yr Amgylchedd ar waith ar y camau hyn:

- Cyn trin y tir neu ddrilio uniongyrchol.
- Yn ystod trin y tir a gweithgareddau hau.
- Yn ystod cynaeafu neu bori cyntaf y cnwd.
- Ar 15 Hydref 2023 ar gyfer gwreiddgnydau neu gnydau pori nad ydynt yn cael eu chwistrellu (opsiwn 4).
- Ar 15 Chwefror 2024 ar gyfer hau indrawn (opsiwn 9).

Mae canllawiau ar ffotograffau â geo-tag ar gael ar y wefan - https://www.llyw.cymru/tyfu-er-mwyn-yr-amgylchedd-canllawiau-ffotograff-geotag

**Copi o'r cofnod o weithgareddau yn y cae**

Rhaid cyflwyno cofnod o'r holl weithgareddau yn y cae, gan gynnwys trin y tir, hau a dyddiadau cynaeafu, cyfraddau hadau, y defnyddio o wrtaith, dyddiad pori a chyfraddau stocio.

Copi o ddadansoddiad o faethynnau, lle y caiff y cnwd ei gynaeafu fel porthiant.

Cofnod o'r dadansoddiad o faethynnau a wnaed i gefnogi cynllunio dogni lle mae'r cnwd yn cael ei gynaeafu fel porthiant.

# Cyflwyno'r Hawliad

## Gwallau a Gwybodaeth

Mae'r adran hon yn rhestru'r Negeseuon 'Gwallau a 'Gwybodaeth' ar eich  Ffurflen Hawlio Grant.

**Rhaid** cywiro unrhyw wallau cyn cyflwyno'ch Ffurflen Hawlio Grant.

Diben y negeseuon Gwybodaeth yw'ch atgoffa am unrhyw gamau y gallai fod gofyn ichi eu cymryd, ond nid ydynt yn eich rhwystro rhag cyflwyno'ch cais.

I weld negeseuon Gwallau a Gwybodaeth ar gyfer adran benodol, cliciwch ar enw'r adran ar ochr chwith y sgrin neu cliciwch ar ddolen Enw'r Adran yn y blwch Gwallau a Gwybodaeth.




Ar ôl ichi gywiro'r gwallau, rydych nawr yn barod i gyflwyno'ch Ffurflen Hawlio Grant.

Mae'r sgrin gyflwyno'n rhestru'r holl weithgareddau rydych wedi'u dewis i hawlio arnyn nhw, ac mae'n dangos gwerth yr hawliad hefyd.




Os ydych wedi dewis hawlio o dan fwy nag un cynllun/contract, bydd y Crynodeb yn dangos yr holl weithgareddau rydych yn hawlio arnyn nhw o dan bob cynllun.



# Datganiadau ac Ymrwymiadau




Rhaid darllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â nhw. Sgroliwch i lawr y dudalen i ddarllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau i gyd. Pan fyddwch yn fodlon eich bod wedi'u darllen a'u deall ac wedi cydymffurfio â nhw, ticiwch y blwch ar y gwaelod i fynd yn eich blaen.

Os na fyddwch wedi ticio'r blwch i gadarnhau'ch bod wedi darllen a deall y Datganiadau ac Ymrwymiadau ac wedi cymdymffurfio â nhw, fe welwch neges camgymeriad ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'ch hawliad tan ichi dicio'r blwch.

Bydd angen ichi dicio mwy nag un blwch wrth hawlio rai grantiau. Gofalwch fod yr holl flychau wedi'u ticio.

Cliciwch y botwm **Nesaf** os ydych am fynd yn eich blaen.

# Anfon




Mae'ch Hawliad Grant yn awr yn barod i'w anfon. Os ydych yn barod i'w anfon, pwyswch y botwm anfon.

Gofalwch eich bod yn anfon eich Ffurflen Hawlio Grant erbyn y dyddiad cau sydd yn y contract.

Os na fyddwch wedi'i anfon erbyn y dyddiad cau, chewch chi ddim mo'ch talu.

Ar ôl anfon yr hawliad, **rhaid** cyflwyno'r holl ddogfennau ategol cymwys.

Os na fyddwch wedi cyflwyno'r dogfennau ategol erbyn y dyddiad cau, chewch chi ddim mo'ch talu.

# Manylion Cysylltu

### Ymholiadau gan Ffermwyr – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Yn y lle cyntaf, dylai cwsmeriaid sydd am gysylltu â ni ffonio neu e-bostio’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau.

Gallwch ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein i anfon cwestiwn at y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Fel arall, defnyddiwch y manylion cysylltu canlynol:

Ffôn: 0300 062 5004

Cyfeiriad Blwch Swyddfa Bost:

Taliadau Gwledig Cymru,
Blwch Postio 1081,
Caerdydd,
CF11 1SU